



# Bwletin Llên Natur

*Golwg newydd ar y byd o'n cwmpas*

Rhifyn  
**98**  
Ebrill 2016



Llun: Alun Williams 10 Mawrth 2016 Bodelwyddan SH 99724 74752



## Tylluan wen - fesul awr (2000) a fesul dydd (2003)

Gweler hanes tynnu'r llun hwn gan **Steve Roddick ym Mwletin 66**. Allbwn teclyn mesur pasiadau o flaen mesurydd otomatig ydi'r graff isod gan Wil Williams ym mis Ebrill 2000 mewn sied ym Môn.



Meddai Wil: "Isho cael rhyw syniad oeddem ni faint o brae oedd yn cael ei ddal a'i gario i gywion a iar Dylluan Wen oedd mewn blwch nythu mewn shed. Tra'r oedd hi'n ddigon gola, roedd ni'n gallu cyfri'r mynd a dwad yn eitha hawdd ond wedi iddi dwllu, toedd ni ddim! Yr oeddem yn ymwybodol bod gêr is-goch ar gael allai wneud y cyfri. Trefnwyd i gael y gêr. Yr oedd y shed fodern tair pin [gweler y blwch gwybodaeth] o led o buleri concrit, walia o flocs concrit i'r cefn a'r talceni a walia tua dwy lath o uchel, eto mewn blocs concrit, rhwng y pina. To o gypla a tulatha pren a sheetia asbestos. Roedd tair



### Blwch gwybodaeth:

Dyma esboniad Wil (cyn syr-fewr adeiladau) am y gair *pin*. Bay am 'ni yn Seusnag: *loading bay, parking bay* ayyb. Wn i'm o le doth y gair yda ni'n ddefnyddio. Pymtheg troedfedd oedd pin pan oedd ni'n codi shedia. 'Dw i ddim yn cofio faint oedd pin yr holl dai gwair - Dutch barn - o buleri dur a to o sheetia galvanized corrugated iron ar dro. Fe godwyd cannoedd os nad miloedd gan Smith, o Whitchurch.

giat wedi eu gorchuddio â sheet metal yn cau ar bob pen. Wrth y gallai'r tylluanod ddefnyddio sawl ffordd i mewn ac allan i/o'r blwch, er mwyn i'r gêr is-goch weithio, roedd rhaid eu cyfyngu i un ffordd yn unig.

Bu i contractwr lleol, yn rhad ac am ddim, gau rhwng y pinau ac uwchben dwy o'r giatau hefo fframwaith o goed a rhwyd glos o blastig lliw gwyrdd [i gyfyngu ar yr adar].... Bu rhaid ffidlan tipyn hefo'r gêr i'w gael i weithio mewn rhyw fath o drefn, Yr oedd modd addasu sensitifrwydd y gêr i, gobeithio, ddim ond recordio symudiadau'r dylluanod yn unig, a pheidio recordio pob dim arall ( fel cacynod, gwenyn, wennoliaid, adar to ayyb oedd yn fflio i mewn ac allan yn ystod y dydd, a gwyfynod, ystlumod ayyb yn ystod y nos. Ceir gwyfynod yn dodwy yn y peleni a chwdir i fyny gan y dylluanod, gyda'r cynron yn bwyta'r blew neu'r ffwr sydd yn y peleni ac yn y pen draw yn troi i fod yn wyfynod. Ambell dro gellir gweld nifer helaeth o wyfynod yn ardal y nyth – cyflenwad o fwyd i adar a ystlumod. Yr oeddem yn meddwl mai'r ceiliog oedd yn hela ar gyfer y cywion a'r iar pan oedd y cywion yn ifanc. Yn llai aml y gwelwyd y ddwy dylluan allan ar yr un pryd. Er bod hynny yn siwr o fod yn digwydd, nid oedd modd mesur hynny. Yn ddelfrydol, buasem wedi hoffi profi pa mor gywir yn wir oedd y gêr yn gweithio. Buasai hynny wedi golygu gwyllo a chyfri am beth amser, yn ystod y ddydd ac yn ystod nos, ac wedyn cymaru ffigyrau y gêr is-goch â'r hyn a welwyd. Dylai'r ddau gyfrif, yn ddelfrydol fod yr un fath. Nid oedd amser yn caniatáu i hynny ddigwydd".

Wil Williams



## Pibydd coeswerdd modrwyog



Dyma bibydd coeswerdd yn gwisgo modrwyon ar y ddwy goes. Fe dynnwyd y llun fis Chwefror 2016 yn SH349678 ym Mhig Trwyn, Aberffraw ond fe'i gwelwyd sawl tro yn yr un cyffiniau dros y 3-4 blynedd diwethaf. Mae'r gwaith ditectif wedi dechrau i weld beth yw hanes yr aderyn.

Wil Williams

Ar ôl holi a stilio, dyma Ron Summers, adarydd efo'r RSPB yn Sutherland yn yr Alban: *This is almost certainly the same bird that was seen [yn Aberffraw] in Dec 2012. It was ringed as a breeding adult (caught on the nest) near Tongue, N Sutherland. In 2012, we did not have unique combinations of colour rings (long story) so cannot be definite about this bird's individual identity. We have tried to re-catch these Orange/Orange birds but have only had partial success. The upper ring has a geo-locator attached that logs its location – however, we have to re-trap it to download the data. One thing of note is that the individuals are faithful to winter quarters, so it is fairly certain*

*that you are sighting the same bird each year, It would be great to get all your past sightings, and particularly your early autumn (they tend to leave the breeding grounds in late June or early July) and late spring records (arrive in late March/early Apr at Tongue). Llygad barcud felly chi adarwyr yn y gogledd (neu du hwnt yn wir)*

## Amser Natur

Cerrig gwynion, cerrig gleision,  
amryw liw ar lannau'r mor.  
Crwydrodd hithau, ger y tonnau,  
gwrandai ar y lli di-dor.

Aeth ei meddwl at y troedio,  
llawer un o'r oesoedd cynt.  
Rheini hefyd yn rhyfeddu,  
ar g'nesrwydd haul a swm y gwynt.

Fel yr aeth yr amser heibio,  
o ysgafn droed i'r llusgo braidd,  
daw blodau gwanwyn a'u holl liwiau,  
ac awel ysgafn trwy hadau'r haidd.

Wendi Jones

## Cromlin, crofachau, cryman ayb

Dyma ddyfyniad o un o erthyglau diweddar y **Country Diary yn y Guardian**.

*The other day I was using my crome in one of the dykes [yn Norfolk]. It is a tool dating to the Middle Ages with a name said to derive from Celtic (crom meant 'crooked'). Although it was a gift from a friend, it sometimes feels like a curse.*

## Wylun allan o'i dymor?



Lindsyn wylun *Lasiocampa quercus*, sh342677 comin Aberffraw, Môn 22 Chwefror 2016. I ba raddau mae hwn allan o'i dymor tybed? **Wil Williams**

*Lasiocampa quercus* **wylun y grug** eg wyluniau'r grug Northern Eggar **Gwyfynod a Glöynnod Byw. Cymdeithas Edward Llwyd 2007** Meddai'r gwyfynwr John Harold: "Maent yn gaeafu fel lindsyn, ac yn tueddu dod allan pan fydd hi'n heulog a chynnes, unrywpryd trwy'r gaeaf. Felly dim mor anarferol, heblaw am y ffaith bo'r haul wedi bod i ffwr am sbel... mae eu maint nhw yn amrywio lot hefyd, dibynnu am yr amodau sy wedi bod yn ystod yr haf/hydref cynt

## Dyffryn Angau yn llawn bywyd

Ar ôl y sychder eithriadol diweddar yn un o fannau poethaf a sychaf y byd, Death Valley, fe ddaeth y glaw o'r diwedd. A gyda'r glaw daeth *super-bloom* o blanhigion yn carpedu'r diffaethdir gyda'i liwiau gogonedus. Darllenwch fwy **yma a gwylwch y fideo**

**Cyhoeddir Bwletin Llên Natur  
gan Gymdeithas Edward Llwyd  
(Rhif Elusen: 1126027).**

Mae Prosiect Llên Natur ar Facebook a Twitter.  
Cysylltwch â ni trwy **lennatur@yahoo.co.uk**.

## Effeithiau'r stormydd yn Llydaw

*Voici deux des six photos qui peuvent illustrer les effets de la tempête sur la côte....*



*Les crustacés sont des pousse-pieds. Mon père dit qu'ils peuvent être victimes de braconnage: très difficiles d'accès, ils sont recherchés pour leur saveur. Ceux des photos sont accrochés sur un bout de bois, peut-être qu'ils avaient colonisé une épave...*

Cyfieithiad: Dyma ddau lun a allai ddangos effeithiau'r storm diweddar ar yr arfordir [yng ngorllewin Llydaw]. Enw'r gragen [yw pousse-pied [y droed sydd yn tyfu - ewch i **fwletin 97** i weld hanes y cregyn gwyrain gawson ni ar ol yr un cyfnod stormus]. Dywed fy nhad eu bod yn dioddef o gael eu gor-ecsploetio ac yn anodd i gael gafael arnynt - **fe'i hystyrir yn fwyd amheuthun**. Roedd [yr uchod] yn sownd wrth ddarn o bren, efallai ar ol ymosod ar ddarn o long-ddrylliad.

**Virginie Herry**

***Pollicipes pollicipes*** yw'r *pouce-pied*, nid ei berthynas agos sef y gragen gwyrain *Lepas anatifera*. sydd wedi dod i'n glannau ni rif y gwllith yn ddiweddar. Ystyr *pouce-pied* yw bawd troed.



Ac (meddai Virginie) dyma effaith y storm ar y twyni gerllaw :

***Voici plusieurs photos prises lors de la dernière inondation à Landerneau*** [Dyma nifer o luniau a dynnwyd yn ystod llyfogydd yn Landerne]:

## Trogod cynta'r flwyddyn ar y ci

17 Mawrth 2016 Gwelfor, Waunfawr: **Trogen fach** gochaid ar Pero ers ychydig ddyddiau [tua 14 Mawrth] (tan bore yma!).

27 Ebrill 2014 (Trogan gynta'r flwyddyn ar ochr llygad Pero'r ci); 2 Mai 2013 (trogen cyntaf ar y ci); 22 Chwefror 2008 (5 trogen arall ar moss, rhai ifanc bach?); 21 Chwefror 2008 (tri trogen ar moss, cynnar?); 13 Chwefror 2004 (trogen fach ar goes Mos y ci- cynnar?? **Duncan Brown**



## Stormydd ag Enwau iddynt

Gofynwyd i ni pam na chawn ni enwau Cymreig ar y stormydd enwol gan y **Swyddfa Dywydd** - neu hyd yn oed system Gymreig o'u henwi?. Os ydi hyn yn unrhyw gysur mi gawsom *Clodagh* (enw Gwyddelig) ar y 28 Tachwedd a phan gyrhaeddwn y llythyren T mi gawn *Tegan*.

Dyma'r stormydd hyd yma:

Enw	Dyddiad y'i henwyd	Dyddiad taro'r storm arnom
Abigail	10 November 2015	12 - 13 November 2015
Barney	16 November 2015	17 - 18 November 2015
Clodagh (Clo-da)	28 November 2015	29 November 2015
Desmond	4 December 2015	5 - 6 December 2015
Eva	22 December 2015	24 December 2015
Storm Frank	28 December 2015	29 - 30 December 2015
Gertrude	28 January 2016	29 January 2016
Henry	30 January 2016	1 - 2 February 2016
Imogen	7 February 2016	8 February 2016

## Chwilen hirgorn y deri Cymreig ger Aberystwyth



**"Chwilen y lili** neu *Pyrrhidium sanguineum*?" gofynnodd Ifan ac Ann Davies. "Go brin?!" meddent. Mae tipyn o goed derw ar eu tir yn Goginan, Aberystwyth SN724790

[Llythyr dyddiedig 22:2:16]

Meddai'r arbenigwr John Bratton: *The pronotum is the wrong shape for lily beetle. It looks like Pyrrhidium sanguineum, something of a rarity. Have they got a log pile?*

John Bratton

Dyma fap dosbarthiad chwilen hirgorn y deri ym Mhrydain. Mae'n debyg bod Ifan ac Ann wedi rhoi pin coch arall ar y map! Ac oes, mae ganddyn nhw domen goed.



## Ystum ym mis Chwefror

1st Feb 1785: *On this cold day about noon a bat was flying round Gracious street-pond, & dipping down & sipping the water, like swallows, as it flew: all the while the wind was very sharp, & the boys were standing on the ice!*

Llythyrau Gilbert White

Dyma bwt i **berwyl tebyg** yn y Country Diary (Guardian). A dyma sylw Jean Matthews (Swyddog Ystumod, CNC): *There's also a theory that some bat species e.g. pipistrelles hibernate in fairly exposed places so that if the weather does warm up, they also do & can go out to forage (or drink) but I don't know if there's any proof of this other than that it is a relatively frequent observation and none of the bats in our area seem to go into a long hibernation.*

## Crwban for arall - gwyrdd meddai'r gwybodusion



Ddois i o hyd i'r gist crwban môr yma ar Morfa Harlech heddiw [14 Chwefror 2016]. Roedd o o leia 100m o'r traeth a dwi'n amau mai llwynog oedd wedi gario fo yno o'r traeth. dwi'n amau mai Loggerhead oedd

O. Rhys Jones  
*I'm fairly confident this isn't a Kemp's. I can't see Pores on the plastron - there are lots of holes that look like pores but I don't think they are. Also there isn't a lot of scalloping on the carapace edges*

*and no dorsal projections that you get in Juvenile Ridleys and Loggerheads. I'm pretty confident that this is a green turtle. It looks like a sundried juvenile green carapace - we had a lot of these in the Caribbean - they tend to go dark green/black and the vertebrae start protruding.*

Cyfoeth Naturiol Cymru

## Crwban-fôr blasus William Bulkeley

Yn ôl ei ddyddiadur cafodd WB anrheg o grwban fôr ar y 1 Mawrth 1749.

*Llanfechell: 1749/50 March 1st. The Wind W. & by N. blowing fresh, but not cold, and it was generally cloudy & dark, but made no rain all this day: Owen Jones of Peibron made me a present this day of a Turtle; drove on shore n the great storm of the 27th.past; it was alive when he first ^found^ it, & lived a piece of that day; there was none ever seen upon the Coasts of England [!] before as I could learn, but they are very comon in the West Indies, & some people guessed it might come from a Ship that perished in that great storm. I had the guts taken out which were near as large as those of a Cow had a prodigious quantity of blood, and when washed clean, I had a great quantity of the flesh cut out of it, & dressed like Beef steaks & some of it I had stewed & it eat very like Beef; it had a bladder as large as a Sheep`s what flesh remained within the shell I had it well salted & hung in the Air & Sun to dry...*

Cofiwch y bydd

**"Mr Bulkeley o'r Brynddu"**


gan **Gwmni Pendraw**

(epil Prosiect Llen Natur Cymdeithas Edward Llwyd),

yn cychwyn yr ail daith dros Gymru a Llundain ym mis Ebrill.

## DYFODIAD Y GWANWYN HYD 28 CHWEFROR (yn ol mesuriadau tymheredd crynhoadol t-sum)

Cymharu'r t-sum isaf (2010 **glas**), uchaf (1997 **coch**), gwerth cyfartalog 1995-2016 (**gwyrdd**) ac eleni (2016 **melyn**)



Sylwadau:

Rhagfyr 2015 oedd y cynhesaf ers dechrau cofnodi yn fesurol. Posib mai hynny sydd i gyfri am ddyddiad cynnar gweld griff llyffant eleni (melyn) o'i gymharu a gwanwyn mwyn 2010 (coch)

Roedd y tyndra a deimlodd fywyd gwyllt yn nyddiau cyntaf Ionawr 2010 yn cael ei adlewyrchu gan adar yn ymddangos mewn niferoedd mawr neu mewn lleoedd annisgwyl.

Ymddangosodd yr eirlys yn ei dymor arferol er gwaethaf gaeaf caled 2010 [???] **Cydnibir Huw Olwen Wil a Rhys**

### Y dde yn dda a chwith yn chwithig

I ychwanegu at **y drafodaeth** am dde yn dda a chwith yn "chwithig" dyma rwbath ddois i ar draws yn Llygad y Ffynnon, Cylchlythyr Cymd. Ffynhonnau Cymru, rhif 26, Haf 2009:

"Ffynnon Cybi (SH42744126) – pan y byddai merched yn yr hen amser mewn pryder mawr yn nghylch cywirdeb eu cariadau ..... dywedai Ffynnon Cybi wrthynt yn lled fuan. Byddai raid i'r ferch ....(d)aenu ei chadach poced yn berffaith gywir dros wyneb y ffynnon; ac i ba gongl bynnag o'r ffynnon y gweithiai tarddiad y ffynnon y cadach, yn o'! hynny y byddai'r dynged i fod. Os i gongl y De y gweithiai y cadach, byddai pob peth yn dda; ond os i gongl y Gogledd y gweithiai hi, yn y gwrthwyneb y byddai pethau i fod."

### Dwy gadwyn fawr



Un o ddwy gadwyn fawr wedi eu dadorchuddio ym Mhorth Neigwl heddiw (8 Mawrth 2016)

**Anet Thomas**

Sgwn i i ba un o'r myrdd o ddrylliadau oddiar Porth Neigwl y mae rhain yn perthyn? Dyma un ohonynt....

Er cof am John Jones, mab JAA Jones, Maes, Nefyn, a foddodd yn bay Porthneigwl, yn llongdrylliad Henry a Catherine

pan ar fordaith o Dublin Rhagfyr 7ed 1866 yn dair blwydd ar ddeg ac wyth mis oed.

**Cofeb yn arddangosfa eglwys Nefyn 18 Gorffennaf 2014**

### Ffair Wagedd y Borth

...Wir, erbyn meddwl, mae o'n beth rhyfedd. Ond waeth be ddeudith neb, mi fydda i'n meddwl ma lie fel oedd yn y Borth ddydd Idun oedd o flaen llygad yr hen Bunyan pan oedd o'n son am ffair wagedd. Welist ti'r mo'r hobia gwirion rheini yn lluchio'u pres, heb feddwl dim mor galed y buo nhw'n gweithio yn y cnua i'w henill nhw? Welist ti nhw'n saethu poteli ac yn tarro'r cnau mawr rheini ac yn treio hitio siani flewog? Ie, a faint gwell fasa nhw, dwad, tasa nhw'n lladd pob siani flewog oedd yno? Ond waeth heb na siarad, Huw bach, felna ma'r byd, a dull y byd ydi ffair y Borth

**27 Hydref 1910: Y Cloriannydd (Diolch i Andrew Hawke)**

Glywsoch chi am saethu sianis blewog mewn ffair erioed?



### Cerrig rhyd nteu cerrig argau

Beth yw rhain tybed (yn croesi'r afon llyfni wrth ei cheg o dan pentre Pontllyfni? Cerrig i groesi afon ynteu cerrig i greu pyllau i bysgotwyr gael gwell helpa? Bum yn pendronni ers cantoedd. Dyma holi... **Duncan Brown**



Cerrig Rhyd ar y Llyfni! Dim o'r hen oesoedd mae gennyf ofn - y ni fel clwb osodwyd rhain rhyw 20 mlynedd yn ol i wneud pyllau am fod pyllau a greuwydrhai rhyw 5 ml. yn gynharach ac o 'sleepers lein' yn dad-gymalu. Hy-Mac oedd y peirant a ddefnyddwyd... Ond mae enwau cerrig croesi diddorol ar y Rhythallt ar Seiont yn dilyn hen lwybrau- mae yma hen ddyddiadur sgotwr o 1809 i 1827 yn cyferio at pob math y lefydd - yn Saesneg mae gennyf ofn. Mae un diddorol a 'rydym wedi methu a'i leoli ar y Gwyrfaï sef Pont y Cyrn- unrhyw wybodaeth? **Huw Hughes (Cymdeithas Pysgota Seiont a Gwyrfaï)**

### 'Llyg y dwr ym Mhenrhyndeudraeth

Dau lun o un Llyg y dwr. Ar lwybr yr ardd 'ma oedd o un bore yn yr hydref. Dwi'n 'i gweld nhw yn yr ardd 'ma o dro i dro; cip sydyn fel rheol.



'Dwn i ddim be berodd i'r diweddar greadur fynd i'w apéd. Ond, mae y rhestr sysbecks yn un hir ar y funud - bwncath, tyl-luan, Jac y do,

cath, ci, neu Lyg y dwr arall. A chan nad oedd yna ddim olion crafanga, na brathiad, na chnoi ar y corff, ma' mhres i ar yr olaf.'

**Aled Jones**

### Trap pysgod honedig Plas Glanrafon

Tywyswyd criw ohonom (Ifor, Dafydd, Rhys a DB) o gwmpas tir Plas Glanrafon, Y Waunfawr, gan y perchen presennol Arthur Davies ar y 20 Chwefror 2016.



Dyma uchafbwynt yr ymweliad, sef gweddillion adeilad wedi ei godi'n wreiddiol dros gafn wedi ei wyro o'r afon Gwyrfaï. Cofiaï Arthur ei dad (a fu farw tua 1953) yn son am yr adeilad fel trap pysgod. Synem ar soffistigeiddrwydd yr adeilad (dwy grib to, ffenestr yn edrych waered yr afon, lle tân nobl a simdde sydd o hyd yn gyfan). A chysidro mor agos at y plasdy ydyw daethom i'r casgliad mai elfen o orchest yn y peth a bod rhyw elfen o hwyl buddugion goludog yng nghyfnod anterth y plasdai sydd gennym yma, mewn gardd estynedig wedi ei dirlunio gyda choed lled-egsotig megis rhododendrons, pinwydd yr Alban a choed yw. Oes rhywun yn gwybod yn well? Cofiaï Arthur hefyd gored ar draws y brif afon gerllaw, i wyro pysgod i'r trap meddai.

Siarad efo Trefor Beech 25 Chwefror 2016, un o hen bysgotwyr afon Gwyrfaï, ac mi ddywedodd mai Ynys Felin oedd yr hogia yn galw yr ynys y mae'r adeilad yn 'pontio' iddi, a hynny yn ol yr enwog bysgotwr Wil Lloyd, Gwastad Faes, Waunfawr o genhedlaeth ynghynt. "Cwestiwn arall" meddai Trefor, "oedd hynny'n gywir?" sef mai melin oedd yr adeilad. **Duncan Brown**

*[At] Plas Oerddwr [Beddgelert] water flowed underneath the dwelling, inside the house you could hear the sound of the running water. Someone else told me (Ron the retired National Park Architect I think) that Plas Oerddwr was a former mill. I thought it an unusual location.*

**Steve Roddick**

Sgwrs ddiddorol am

## Y Gylfinir yng Nghymru

gan Sion Dafis (gynt o'r RSPB)

Canolfan Felinwnda, Dinas, Llanwnda LL545UG  
14 Ebrill 2016 am 7.30 o'r gloch. £3 yn cynnwys paned  
map o'r lleoliad yma [www.canolfanbrollanwnda.com](http://www.canolfanbrollanwnda.com)



## Crawen dyllog, ffwng y big-bels



Gweld hwn yn tyfu'n droellog ar hyd llinin belan fawr ochra Berffro, gaeaf 2015-16 Wil Williams

*This looks like *Schizophyllum commune* – Splitgill which can be found growing on silage bales. (It's growing on the contents not the twine or plastic) and I have seen it before myself. Not good news for the farmer!*

Debbie Evans

## Stryd Pultenay, Bath



By User:Nikater - Own work, GFDL,  
<https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=3976626>

*My father tells me that his father [felly ail hanner y 18g.] used to shoot snipe where *Pultenay Sreet* now stands. The site of Pulteney Street was then a waste marsh bordering the river...*

Dyddiadur Y Parch Francis Kilvert 31 Rhagfyr 1874

## Jacdouau Malmesbury

*22 Rhagfyr 1874.. tells me that the Malmesbury people are commonly called `Jackdaws` to their intense disgust. It is a common saying among folks going to Malmesbury, `Let us go and see the Malmesbury Jackdaws`. ...I remember hearing .... that jackdaws are often called in these parts `The Parsons from Malmesbury Abbey`. Perhaps the grey polls of the birds may have suggested the shaven polls of the monks, or the thievish habits of the jackdaws may have called to remembrance some tradition of the rapacity of the Abbot of Malmesbury.*

Dyddiadur Francis Kilvert


## Ydfran pig-cam



Mae'r ydfran yma yn ymwelydd rheolaidd i'r ardd gefn yn Nhrefnant, yn amlwg nid yw y nam ar y pig yn fawr o rwystr rhag bwydo. Chwefror 28. Alun Williams  
Fel Mae'n digwydd dydi anffurfiant pigau adar *ddim mor anghyffredin* a hynny

## Enwau'r adar...

Ehedydd ar draeth  
Bae Cinmel,  
Mawrth 5, 2010.  
Eifion Griffiths



... yn ol efengyl y  
*Geiriadur Enwau a  
Thermau*

*Alauda arvensis*  
ehedydd eg ehedyd-  
dion  
Eurasian sky lark  
Adar y Byd. Cymdeithas  
Edward Llwyd a Chymdei-  
thas Ted Breeze-Jones  
2015  
ehedydd eg ehedyd-  
dion  
skylark

Creaduriad Asgwrn-Cefn. Cymdeithas Edward Llwyd 1994

Ehedydd  
uchedydd.  
ehedydd bach [gweler *meadow pipit* a *rock pipit*].  
hedydd.  
meilierydd.  
hedydd mawr.  
larcen.  
etidd.  
ehedydd gopog.  
ichetydd  
Skylark

Rhagor o Enwau Adar: Dewi E Lewis a Chymdeithas Edward Llwyd

**Dyddiad eich cw cw cyntaf eleni**

Rhowch floedd!




## Llewyrch y gogledd

...mor belled i'r de a Rhydychen....



...ac yng ngogledd Cymru hefyd. Er engraifft y llewyrch dros y Rhinogau 6-7 Mawrth. Noder goleuadau'r awyren uwchben Rhinog Fach. Mae'r golau coch dros Pleiades (y Saith Chwaer), neu mewn Japaneaidd "Subaru" ac fe welir y cytser arbennig hynny ar logo'r ceir o'r un enw.



## Cwch rhew Llyn Padarn



ON LLANBERIS LAKE DURING THE GREAT FROST 1895-6.

Pwy oedd y ddau swel ar eu cwch rhew crand ar lyn Padarn yn Heth Fawr 1895? Meddai Philip Clark: *it's an ice yacht mentioned in Winter Holiday [gan Arthur Ransome], published 1933, first mentioned I think ch XVI with reminiscence of 1895 "there were three or four of them rushing about on the lake.. and racing for a silver cup." Then the children try to turn their sledges into sailing vehicles. Ransome had been at school at Windermere in 1895, and living there next time the lake froze, 1929.*

## Priodas y brain

Yn "Cnoc ar y Drws", Atgofion T C Simpson, postmon Llangedfni (cyhoeddwyd yn 1973), tud. 10:

... Rwyf yn cofio f'ewythr yn gofyn imi edrych i fyny, ac yn deud "Weli di'r briodas frain yna?" "Gwelaf" medda finna.

'Fedri di gyfri faint sydd yna?'

"Wel na fedraf! Mae'n o lew imi weld y briodas lle da i'w cyfrif!" meddwn inna. Ac mi rwyf yn gwisgo sbectol byth.

Tybed a ydi "priodas" yn llygriad ar y gair "branas", enw benywaidd, gw. GPC, neu "branes [branos?]", enw lluosog, cywion brain, gw. GPC. A oes unrhyw ddarllenydd yn gyfarwydd a'r "priodas" yn yr ystyr hon?


Bruce Griffiths

Meddai Andrew Hawke, Golygydd GPC: "Dw i wedi dod o hyd i'r enghreifftiau hyn [un isod] o "priodas y brain" ar lein, sy'n awgrymu nad llygriad mohono nac enw torfol, ond enw ar ddigwyddiad penodol".

wedi iddo ei phriodi, trodd ei feinwen fad yn hen hoeden annyben, fudr, front, a buasai yn well i'r naill a'r llall o honynt fod heb weled eu gilydd erioed, oblegyd y "mae priodas y brain yn gwllwm Urddasol yn ymyl undeb o'r fath." A chan fod merched Cymru fel merched Corinth gynt, yn meddwl priodi hwyr neu hwyrach, amlwg yw fod addysg a diwylliant yn anheb- gorol angenrheidiol tuag at eu dwyn i fyny...

Y Gwladgarwr 3 Awst 1872

## Tacla....!?



Ym mis Mawrth eleni (2016) buom (GB & DB) yn pendronni beth fu'n tynnu allan y blodau yn y briallu Mair yng ngwaelod yr ardd (llun). Efallai bod Gilbert White isod wedi rhoi'r ateb i ni 250 mlynedd yn ol!

Gill Brown

Selborne 5 Mai 1784: ...Golden weather. The polyanths blow [blodeuo] finely, especially the young seedlings

from Bramshot place, many of which will be curious. Shot three greenfinches, which pull of the blossoms of the polyanths

Dyddiadur Gilbert White

Ac oes, mae yna bar o linosiaid gwyrddion yn brysur yn yr ardd eto eleni. Ond fe allasai mai adar y to yw'r 'troseddwy'r' (Mae "polyanthus" wrth gwrs yn gefndryd agos i'r briallu Mair). Pwy bynnag sydd yn "euog" ysgwn i pam mae nhw'n gwneud hyn?